# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PWYLLGOR CYNGHORI'R CABINET – ATAL A DIWYGIO GOFAL CYMDEITHASOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD LLUN, 20 CHWEFROR 2017 AM 2.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r Cynghorydd V M Evans (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| J P Curtice | E J King | R V Smith |
| T M White | | |

**Hefyd yn bresennol**

Y Cynghorydd J. E. C. Harris — Aelod y Cabinet dros Oedolion a Phobl Ddiamddiffyn

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Kate Jones | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Chris Sivers | Director of People |
| Jane Whitmore | Partnership, Performance & Commissioning Manager |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

Y Cynghorydd: J C Bayliss, U C Clay, E T Kirchner a H M Morris

48 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.**

Yn unol â'r cod Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

49 **COFNODION.**

**PENDERFYNWYD** cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Ionawr 2017 fel cofnod cywir.

50 **CYFLWYNIAD - GWNEUD HAWLIAU DYNOL YN REALITI I BOBL HYN.**

Rhoddwyd cyflwyniad ar 'Gwneud Hawliau Dynol yn Berthnasol i Bobl Hŷn' gan Chris Sivers, Cyfarwyddwr Pobl.

Gofynnodd y Pwyllgor gwestiynau i'r Swyddog, a ymatebodd yn briodol. Holwyd cwestiynau a chafwyd trafodaeth ynghylch y pethau canlynol: -

- Rhwydwaith 50+
- Hyfforddiant ar ddementia ar gyfer yr holl staff rheng flaen
- Proses Asesiad Effaith Cydraddoldeb
- Ffyrdd i drechu unigrwydd ac arwahaniad a chyrraedd y rhai sy'n unig ac yn ynysig

- Effaith ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mwy o weithio ar draws y cenedlaethau.
- Manteision a chyfyngiadau Cydlynu Ardaloedd Lleol
- Hyrwyddo Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru ac ymwybyddiaeth ohono
- Gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Tân ar y fenter 'pob cyswllt yn cyfrif'
- Mwy o waith partneriaeth gyda'r Cyngor i gysylltu'r adran tai, gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau perthnasol eraill.
- Anodd cysylltu â'r cyngor gyda mwy o gyswllt digidol a gwybodaeth ar y we.
- Ail-grwpio 50+ oed yn grwpiau oedran llai i gydnabod yr anghenion gwahanol.
- Hyfforddiant ar afiechyd
- Adborth gan bobl hŷn ar gasgliadau gwastraff, yn arbennig y gwasanaeth casglu cynorthwyol ac mae eu profiadau o ddefnyddio'r canolfannau cyswllt yn eithaf negyddol.
- Gwaith partneriaeth gyda Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu
- Cynllun Gwarchod Cymdogaethau i Ieuenctid
- Trosedd ac anhrefn - mae cynnydd perfformiad y Bartneriaeth Abertawe Mwy Diogel ar yr agenda ar gyfer Pwyllgor y Rhaglen Graffu ar 9 Mawrth 2017 am 4.30pm, Ystafell Bwyllgor 3A.

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys y cyflwyniad.

## 51 RHAGLEN WAITH 2016/17.

Rhoddodd y cadeirydd yr adroddiad am Raglen Waith 2016 – 2017.

**PENDERFYNWYD AR Y CANLYNOL: -**

1) Caiff yr eitemau canlynol eu hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer 20 Mawrth 2017:-
   - Adborth ar ganlyniadau'r Ymgynghoriad ar Ofal Cartref (llafar)
   - Iechyd a Deiet yn Abertawe (siwgr)
   - Y diweddaraf am yr Adolygiad Comisiynu Gwasanaethau Meddwl (llafar)
   - Y diweddaraf am yr Adolygiad Comisiynu Anawsterau Dysgu (llafar)
   - Y diweddaraf am Gyngor Sir Fynwy (adroddiad)
   - Y diweddaraf am Daliadau Uniongyrchol (adroddiad)
   - Cyflwyniad ar yr Asesiad Poblogaeth.

2) Caiff yr eitemau canlynol eu hychwanegu at y rhaglen waith ar gyfer 10 Ebrill 2017: -
   - Teledu cylch cyfyng
   - Adborth o'r cyfarfod anffurfiol gyda gofalwyr
   - Adroddiad crynodeb terfynol Pwyllgor Cynghori'r Cabinet ar Ataliaeth a Gofal Cymdeithasol.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.23 pm

**CADEIRYDD**